

# Yr ysgariad mawr

“... llydan yw'r porth ac eang yw'r ffordd sy'n arwain i ddistryw.” (adn. 13)

## Beth am ddarllen Mathew 7:1–13 ac yna myfyrio

Nid oes yr un ystyriaeth o'r nefoedd yn gyflawn heb i ni ystyried realiti uffern. At hyn yr ydym yn awr am droi. Nid yw uffern yn destun melys i'w ystyried, yn arbennig mewn llyfr fel hwn. Ond rhaid i ni roi sylw iddo, beth bynnag. Mae'r athrawiaeth am uffern yn rhywbeth y mae Cristnogion cyfoes yn amharod i siarad amdano. Mae rhai hyd yn oed am ei daflu o'r neilltu yn gyfan gwbl. Beth bynnag yw'r ffordd yr ystyrir y mater yma, mae'r gredo mewn uffern yn gwbl Feiblaidd. Mae Iesu ei hunan yn siarad am uffern yn fynych.

Dwy ganrif yn ôl, ysgrifennodd William Blake lyfr gyda'r testun 'Priodas Nefoedd ac Uffern' (*The Marriage of Heaven and Hell*) ac, yn y llyfr yma, mae'n ceisio dadlau nad yw realiti byth yn cyflwyno 'naill ai... neu' i ni, ac mewn amser, bydd pob drwg yn cael ei droi yn dda, heb yr angenrheidrwydd am wrthodiad tragwyddol. Mae'r safbwynt yma yn boblogaidd iawn ac yn un sydd yn cael ei gadarnhau mewn nifer o golegau diwinyddol rhyddfrydol y dyddiau hyn. Mewn ymateb i'r llyfr, 'Priodas Nefoedd ac Uffern', ysgrifennodd C. S. Lewis gyfrol fechan, 'Yr Ysgariad Mawr' (*The Great Divorce*). Yn y llyfr yma, mae C. S. Lewis yn dadlau mai nid ffyrdd cylchynol sydd yn arwain yn y diwedd i'r canol yw pob ffordd. Yn hytrach, fel y dywed yr Arglwydd wrthym yn y testun heddiw, mae'r ffyrdd yn arwain i gyfeiriadau cwbl wahanol – i'r nefoedd ac i uffern. Ond nid yw bod ar y ffordd anghywir, y ffordd lydan yma, yn golygu yn naturiol y byddwn yn mynd i uffern. Fe allwn benderfynu i droi oddi ar y ffordd yma a chymryd y ffordd arall, y ffordd gul, y ffordd sydd yn arwain i fywyd ac i'r nefoedd.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 22:1–14; 8:5–12; 25:46

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Iesu yn ei ddysgu yn y ddameg yma?
2. Sut mae Iesu'n disgrifio uffern?

## Gweddi

O Dad, arwain fy meddwl wrth i mi ystyried y testun anodd yma. Rwyf am wybod y gwirionedd, er bod y gwirionedd yma yn anodd i'w dderbyn. Cynorthwya fi i ddod i'r casgliadau cywir, casgliadau Beiblaidd. Yn enw Iesu Grist. Amen.